

Dechrau Arni


Mae'r adran yma'n cynnwys gwybodaeth i'ch helpu i ganfod ar ba fath o gontract y cewch eich cyflogi.



Mae NASUWT wedi'i ymrwymo i gefnogi pob aelod sy'n athro neu'n athrawes newydd gymhwyso ac i amddiffyn eu buddiannau. Pa fath bynnag o ysgol yr addysgwch ynddi, cewch gefnogaeth lawn yr undeb athrawon mwyaf yng Nghymru a'r DU. Darperir cefnogaeth i athrawon newydd drwy ein Canolfan Genedlaethol NASUWT Cymru a thrwy ein rhwydwaith o gynrychiolwyr lleol a swyddogion etholedig.

Mae'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Gwaith Athrawon Ysgol (STPCD) yn darparu'r hawliadau cytundebol i'r mwyafrif o athrawon sy'n gweithio yng Nghymru.

Ar ba fath o gontract ydych chi?



Ysgolion Annibynnol, Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch

Mae gan ysgolion annibynnol a sefydliadau addysg bellach ac uwch eu polisiau eu hunain ac nid yr amodau a'r telerau cenedlaethol a osodir gan Lywodraeth Cymru. Er bod rhai elfennau o'r contract yn gallu bod yn debyg, dylai aelodau ddarllen y polisiau'n ofalus iawn.

I gael darlun cryno o'r amrywiol ffyrdd y mae NASUWT yn cefnogi athrawon newydd, yn cynnwys canllaw i'r broses ymsefydlu, seminarau datblygiad proffesiynol rhad ac am ddim, a rhwydweithio rhwng athrawon newydd y mae'r Undeb yn eu hyrwyddo, defnyddiwch y ddolen isod.

Mae'n deimlad gwych cael y cyfle i leisio pryderon, cwestiynau a phrofiadau go iawn pan fyddwch yn gwybod y bydd NASUWT yn rhoi cyngor a chymorth proffesiynol.

Athro Newydd Gymhwys



I gael rhagor o wybodaeth a chyngor ynglŷn â chychwyn eich gyrfa addysgu, ewch i:

www.nasuw.org.uk/NewTeachers

Dod o Hyd i'ch Swydd Addysgu Gyntaf

Mae'r adran yma'n cynnwys cyngor ac arweiniad i'ch helpu i sicrhau eich swydd addysgu gyntaf, gan gynnwys gwneud cais a pharatoi ar gyfer cyfweiliad.



Dod o hyd i Swydd

- Dechreuwch chwilio am swydd gynted ag sy'n bosibl ac yn sicr erbyn tymor y Gwanwyn yn eich blwyddyn olaf.
- Canfyddwch fanylion unrhyw drefniadau 'cronfa' a weithredir gan awdurdodau lleol, lle mae athrawon newydd yn cael eu penodi i'r awdurdod lleol ac yna'n cael eu dosbarthu i ysgolion fel y mae swyddi gwag yn codi.
- Canfyddwch a yw'r awdurdod lleol yn gweithredu cronfa ddata recriwtio lle maent yn derbyn ffurflenni cais ac yn eu dal ar ffeil i'w hystyried yn erbyn swyddi gwag priodol wrth iddynt godi.
- Defnyddiwch y we i chwilio am swyddi. Mae amryw o wahanol adnoddau ar wefannau megis gwasanaeth chwilio am swyddi'r Times Educational Supplement (TES) ar www.tes.co.uk ac e-teach ar www.eteach.com.
- Ymgynghorwch ag adnodd ar-lein NASUWT i gael cyngor am lunio eich llythyr cais a'ch curriculum vitae (CV) ar www.nasuwt.org.uk/FindingYourFirstTeachingPost.
- Ystyriwch wneud gwaith cyflenwi os nad oes swydd barhaol ar gael.
- Os ydych yn ystyried gwneud gwaith cyflenwi, cysylltwch â'r Supply Register, sef asiantaeth gyflenwi wedi'i seilio ar werthoedd moesegol, ar www.supplyregister.uk.
- Edrychwch ar adrannau swyddi addysgu ar wefannau'r awdurdodau lleol eu hunain.
- Mae gwneud cais i ysgol ar hap yn gallu bod yn llwyddiannus os yw'n cael ei dderbyn ar adeg briodol neu mae'n creu'r fath argraff nes bod yr ysgol yn cadw eich cais ar ffeil.
- Gallwch ganfod swyddi gwag drwy bobl eraill yr ydych yn eu nabod. Efallai bod gan gyfaill neu diwtor cwrs gysylltiadau sy'n eu hysbysu am swyddi gwag sydd wedi codi. Cofiwch wrando i glywed am swyddi gwag gan bobl yr ydych yn eu cyfarfod yn ystod eich lleoliadau ymarfer addysgu.

Gwneud Cais

- Cymerwch sylw manwl o'r canllawiau am y drefn benodi a dilynwch gyfarwyddiadau'r cyflogwr.
- Paratowch ddrafft bras o'r cais yn gyntaf.
- Sicrhewch fod eich gwybodaeth, profiad a sgiliau'n cyfateb â phob un o'r meini prawf yn y manylion personol pan fyddwch yn ysgrifennu eich datganiad cefnogi.
- Gwnewch yn siŵr bod eich cais yn glir ac yn hawdd ei ddarllen.
- Heblaw eich bod yn gwneud cais ar-lein, defnyddiwch feiro ddu eglur oherwydd efallai y bydd angen llungopïo'r ffurflen.
- Paratowch eich datganiad cefnogi ar gyfrifiadur a'i atodi fel dogfen ar wahân..
- Gwnewch yn siŵr fod eich sillafu a'ch gramadeg yn gywir.
- Gofynnwch i gyfaill edrych dros eich cais cyn ei gyflwyno.
- Cadwch gopi o'ch cais. Byddwch angen cofio beth roeddech wedi'i ddweud wrth baratoi ar gyfer cyfweiliad a gallwch gyfeirio ato wrth lenwi ceisiadau eraill.
- Ysgrifennwch lythyr ategol oni ofynnir i chi beidio. Bydd hyn yn rhoi cyfle i chi gael argraff dda ar y cyflogwr a'ch codi uwch ysgwyddau'r ymgeiswyr eraill. Mae'r llythyr yn gyfle i gyfleu eich personoliaeth, ond dylai fod yn gryno.
- Mae pob swydd yn wahanol, felly er bod modd defnyddio ceisiadau blaenorol fel templedi, targedwch eich cais at y swydd a'i wneud mor benodol ag y gallwch.
- Defnyddiwch esiamplau gyda thystiolaeth sy'n berthnasol i'r disgrifiad swydd a'r fanyleb personol.

Dod o Hyd i'ch Swydd Addysgu Gyntaf

Y Cyfweiliad

- Dewch i wybod cymaint ag y gallwch am yr ysgol cyn y cyfweiliad. Os yw'n bosibl ewch i ymweld â'r ysgol cyn y cyfweiliad. Gofynnwch am gyfle i wneud hynny. Mae gan y mwyafrif o ysgolion wefan. Ewch arni. Yn eich atebion, cyfeiriwch at yr wybodaeth a gawsoch yn ystod eich ymweliad neu ar y wefan.
- Meddyliwch pa gwestiynau y gallent eu gofyn i chi yn y cyfweiliad a pharatowch bwyntiau allweddol yr ydych eisiau eu gwneud wrth ateb.
- Meddyliwch am yr argraff yr ydych yn ei rhoi gyda'ch corff a'ch llygaid i'r person sy'n gofyn y cwestiwn.
- Gofynnwch am eglurhad pellach os nad ydych yn deall y cwestiwn a ofynnwyd.
- Penderfynwch a ydych yn barod i dderbyn y swydd os caiff ei chynnig i chi yn ystod y cyfweiliad. Efallai mai dyma fydd y cwestiwn olaf y maent yn ei ofyn. Os nad ydych eisiau cymryd y swydd, dywedwch hynny wrthynt.
- Byddwch yn barod i ofyn cwestiynau rydych wedi'u paratoi o flaen llaw i'r panel ar ddiwedd y cyfweiliad. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi meddwl yn drylwyr am y cwestiynau a pheidiwch â gofyn cwestiynau dim ond er mwyn gofyn rhywbeth, yn enwedig os ydych wedi trafod ateb i'r cwestiwn yn barod yn ystod y cyfweiliad. Os ydych, dywedwch hynny.
- Paratowch drwy ail-ddarllen eich ffurflen gais a datblygu esiamplau o sefyllfaoedd lle'r ydych wedi dangos eich sgiliau a'ch galluedd.
- Byddwch yn barod ar gyfer y ffaith fod rhai ysgolion yn defnyddio disgyblion yn y broses gyfweld. Mae NASUWT wedi cynhyrchu canllawiau manwl am hyn yn ein cyhoeddiad Llais Myfyrwyr, sydd ar gael ar y wefan www.nasuwt.org.uk.
- Os gofynnir cwestiwn annisgwyl i chi, cymerwch funud i ystyried eich ateb cyn ei roi. Os oes raid, cymerwch lwnc o ddŵr os oes dŵr ar gael, i roi digon o amser i chi'ch hun.
- Rhowch esiamplau priodol i ddarlunio a chefnogi eich atebion.

“ Fel undeb, mae NASUWT bob amser yn cadw cysylltiad â'i aelodau – felly, rwy'n ymwybodol iawn o fy hawliau fel athrawes.

Athrawes Newydd Gymhwyso ”



I gael rhagor o wybodaeth a chyngor ynglŷn â dod o hyd i'ch swydd addysgu gyntaf, ewch i:

www.naswt.org.uk/FindingYourFirstTeachingPost

Eich Penodiad

Mae'r adran yma'n cynnwys cyngor ac arweiniad i'ch helpu i baratoi ar gyfer eich swydd addysgu gyntaf.



Ar ôl y Cyfweiliad

Yn dilyn cyfweiliad llwyddiannus, dylech dderbyn cynnig ysgrifenedig ffurfiol sy'n manylu ar amodau'r penodiad.

Dylai hyn gynnwys:

- natur y contract, h.y. parhaol neu dros dro;
- dyddiad dechrau;
- cyflog cychwynnol;
- diffiniad o'r swydd. (Gallai hwn fod yn ddisgrifiad swydd a dderbyniwch, neu os nad ydyw wedi'i gynnwys, gallai gael ei gynhyrchu'n fuan ar ôl i chi gymryd y swydd.)

Naill ai cyn dechrau neu'n fuan ar ôl i chi ddechrau, dylech dderbyn copi o'ch amodau cyflogaeth, na ddylech ei lofnodi oni bai ei fod yn cydymffurfio â diffiniad y swydd a gynigwyd i chi. Os ydych yn ansicr, dylech geisio cyngor gan NASUWT.

Os nad ydych yn llwyddiannus, cofiwch ofyn am eglurhad bob tro a byddwch yn gallu defnyddio'r wybodaeth hon i'ch helpu gyda'ch cais nesaf. Os nad ydych yn hapus am unrhyw agwedd o'r broses benodi e.e. os ydych yn teimlo bod rhywun wedi gwahaniaethu yn eich erbyn, cysylltwch â NASUWT i gael cyngor.

Ffitrwydd i Addysgu

Mae'n bwysig eich bod yn gallu cwrdd â'r gofynion corfforol a ffitrwydd meddygol ar gyfer addysgu. Cyfrifoldeb y cyflogwr yw penderfynu ar eich ffitrwydd meddygol, a gallai ofyn i chi gael archwiliad meddygol cyn, neu'n fuan ar ôl, i chi ymgymryd â'ch swydd.

Wrth benderfynu a yw athro/athrawes yn gymwys i addysgu, mae dyletswydd gyfreithiol ar gyflogwyr i ystyried unrhyw addasiadau rhesymol y gellid eu gwneud i gynorthwyo'r athro/athrawes i gyflawni ei (d)dyletswyddau.

Hefyd, gwaherddir cyflogwyr rhag gofyn cwestiynau i ddarpar weithwyr ynglŷn â'u hiechyd cyn cynnig swydd iddynt. Os yw adroddiad y swyddog meddygol yn anffafriol, cysylltwch â NASUWT i gael cyngor ar lunio apêl.

Athrawon ag Anabledd

Ni ddylai anabledd wahardd athro neu athrawes yn awtomatig rhag addysgu. Mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar y cyflogwr i wneud addasiadau rhesymol i'r amgylchedd gwaith er mwyn cynnwys gweithwyr sydd wedi datgan fod ganddynt anabledd.

Os ydych yn credu eich bod wedi cael eich gwrthod rhag cael swydd, neu wedi wynebu gwahaniaethu, oherwydd eich anabledd, cysylltwch â NASUWT.

Ymweld â'ch Lleoliad Gwaith Newydd

Gall eich cyflogwr newydd gynnig cyfle i chi ymweld â'ch gweithle newydd cyn i chi ddechrau yn y swydd. Ond, os nad yw hyn yn digwydd, cymerwch chi'r cam cyntaf. Cysylltwch â'r ysgol a gofyn iddynt pryd fyddai'n gyfleus i chi ymweld. Bydd yr ymweliad yma'n rhoi cyfle i chi ddod i adnabod yr ysgol ac yn gwneud diwrnod cyntaf y tymor yn llawer haws. Mae hwn yn gyfle gwerthfawr i gyfarfod â disgyblion a'ch darpar gydweithwyr.

Efallai y byddwch eisiau cysylltu â Chynrychiolydd Gweithle NASUWT neu â pherson cyswllt NASUWT yn yr ysgol, a fydd yn hapus iawn i roi gwybodaeth a chynghor i chi.

Eich Penodiad

Rhestr Wirio ar eich Penodiad

Gall yr wybodaeth sydd ar gael wahaniaethu yn dibynnu ar y math o ysgol y bydd athro neu athrawes newydd yn gweithio ynddi.

Fodd bynnag, dylai athrawon newydd sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar yr eitemau hanfodol yn y rhestr wirio isod a dylent geisio sicrhau'r eitemau manteisiol os oes modd. Os cewch unrhyw anawsterau wrth geisio cael gafael ar y wybodaeth yma, cysylltwch â'ch Cynrychiolydd Gweithle NASUWT neu â'ch person cyswllt NASUWT, neu â NASUWT.

Hanfodol	Manteisiol
<ul style="list-style-type: none"> • Llythyr penodi. • Copi o'ch amodau cyflogaeth, sy'n cynnwys eich cyflog. • Disgrifiad swydd. • Contract cyflogaeth. 	<ul style="list-style-type: none"> • Manylion rhaglen ymsefydlu'r ysgol. • Llawlyfr staff. • Copi o bolisi ymddygiad disgyblion yr ysgol. • Holl gytundebau a pholisïau staff yr ysgol, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â: <ul style="list-style-type: none"> • chyflogau; • cyfleoedd cyfartal; • iechyd a diogelwch; • gweithdrefnau cwyno, disgyblu a gallu ar gyfer y staff; • absenoldeb oherwydd salwch; • gwerthuso/rheoli perfformiad; • caniatâd i fod yn absennol.





Mae NASUWT yn rhoi cyngor ystyrlon a defnyddiol sy'n ymwneud yn benodol â'r problemau.

Athrawes Newydd Gymhwys



I gael rhagor o wybodaeth a chyngor am eich swydd gyntaf, ewch i:

www.nasuw.org.uk/BeingAppointed

Cael Cofrestrriad

Mae'r adran yma'n cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r gofyniad i chi gael cofrestrriad a chithau'n awr yn athro/athrawes gymwysedig.



Cyngor y Gweithlu Addysg

Yng Nghymru, rhaid i chi gael cofrestrriad gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA), sy'n gyfrifol am:

- gadw cofrestr o athrawon, darlithwyr a staff cymorth dysgu;
- reoli'r proffesiwn drwy weithdrefnau priodoldeb a chymhwysedd.

Mae'n rhaid i athrawon dalu ffi flynyddol a fydd yn cael ei thynnu o'ch cyflog fel arfer os ydych mewn swydd gyflogedig. Ewch i www.ewc.wales i gael rhagor o wybodaeth.

Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) yn helpu cyflogwyr yng Nghymru a Lloegr i rwystro pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant.

Bydd eich cyflogwr yn rhoi ffurflen i chi ei llenwi a'i dychwelyd, ynghyd â rhai dogfennau penodol i brofi pwy ydych, a allai gynnwys pasbort, trwydded yrru a/neu dystysgrif geni.

Mae dau fath o dystysgrif datgeliad: Safonol a Manwl.

Mae'n rhaid i athrawon gael Datgeliad Manwl. Mae'r Datgeliad Manwl yn cynnwys manylion unrhyw gollfarnau, yn ogystal â rhybuddiadau, rhybuddion a cheryddon, o restr genedlaethol a gedwir gan yr heddlu. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth nad yw'n ymwneud â cholffarnau a gedwir yng nghofnodion yr heddlu lleol y mae prif swyddog o'r heddlu yn ei hystyried yn berthnasol i'r swydd y gwneir cais amdani.

Mae'r Datgeliad Manwl yn cynnwys gwiriad yn erbyn y rhestr genedlaethol a gedwir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg o bobl sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant.

Y ffi i wneud cais am Ddatgeliad Manwl ar gyfer athrawon yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd yw £44. Yn gyfreithiol, cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw talu'r ffi. Fodd bynnag, yn ymarferol, mae llawer o gyflogwyr yn talu'r ffi ar ran yr ymgeisydd.

Os bydd aelod yn credu bod yr wybodaeth a roddwyd mewn datgeliad GDG yn ffeithiol anghywir, gellir codi'r mater un ai drwy weithdrefn anghydfod GDG neu'n uniongyrchol drwy Brif Gwnstabl yr heddlu perthnasol.

Dylai aelodau sy'n pryderu am hyn geisio cyngor gan NASUWT.

Os oes gennych gollfarn droseddol ac rydych yn pryderu am ei natur neu'r effaith bosibl ar unrhyw gais am swydd, dylech gysylltu â NASUWT i gael cyngor.


Dydy collfarn droseddol ddim o anghenraid yn golygu nad ydych chi'n cael addysgu mwyach. Bydd yn dibynnu pa mor berthnasol yw'r gollfarn i'ch swydd.

Anghymhwysiad drwy Gysylltiad

Gallai unrhyw unigolyn sy'n byw neu sydd wedi'i gyflogi yng nghartref yr athro neu'r athrawes ac sydd ag unrhyw gollfarn heb ddarfod achosi i'r athro/athrawes gael ei (h)anghymwysu rhag addysgu. Bydd hyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau, yn bennaf natur y drosedd.

“Mae gen i strategaethau go iawn y gallaf eu defnyddio i'm helpu i wneud fy ngwaith addysgu'n fwy effeithiol.

Athro Newydd Gymhwyso



I gael rhagor o wybodaeth a chyngor am eich swydd gyntaf, ewch i:

www.nasuwat.org.uk/NewTeachers

Eich Cyfnod Ymsefydlu

Mae'r adran yma'n cynnwys gwybodaeth hanfodol am eich hawliau fel athro neu athrawes newydd yn ystod eich cyfnod ymsefydlu.



Yr Hawliau Allweddol

Dyma'r hawliau allweddol y dylai athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru ddisgwyl eu derbyn wrth fynd drwy'r cyfnod ymsefydlu:

- yr hawl i ostyngiad o 10% mewn amser addysgu ar yr amserlen. (Mae hyn yn ychwanegol at y 10% o amser cynllunio, paratoi ac asesu (CPA) gwarantedig y mae gan bob athro'r hawl cytundebol iddo.);
- yr hawl i beidio gorfod addysgu y tu allan i'r ystod oed neu'r pwnc y cawsent eu hyfforddi ar eu cyfer;
- yr hawl i gael gweld a chael y profiad o weithdrefnau cynllunio athrawon eraill;
- yr hawl i gael tiwtor neu fentor ymsefydlu;
- yr hawl i beidio ag addysgu'n rheolaidd ddosbarthiadau neu blant unigol sydd â phroblemau disgyblaeth arbennig neu arbennig o heriol;
- yr hawl i addysgu'r un dosbarth(iadau) yn rheolaidd;
- yr hawl i dderbyn adborth a chefnogaeth gyson ar eu cynnydd;
- yr hawl i gael rhaglen gefnogaeth gynhwysfawr yn ystod eu cyfnod ymsefydlu;
- yr hawl i dderbyn rhybudd cynnar am unrhyw broblemau neu anawsterau a ganfuwyd yn eu cynnydd;
- yr hawl i gael eu trin fel rhywun proffesiynol.

Os byddwch yn teimlo nad ydych yn gallu cael yr hawliau allweddol a'r cymorth priodol a fyddai'n gadael i chi gwblhau eich cyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus, dylech gysylltu â NASUWT. Mae methiant i gwblhau'r cyfnod ymsefydlu yn foddhaol yn golygu nad yw'r athro/athrawes newydd gymhwyso bellach yn gymwys i'w gyflogi/chyflogi fel athro cymwysedig/athrawes gymwysedig.

Rhaid diswyddo'r athro/athrawes newydd gymhwyso, oni bai bod apêl ar y gweill. Yn yr achos hwnnw gall y cyflogwr barhau i gyflogi'r athro/athrawes newydd gymhwyso mewn dyletswyddau cyfyngedig wrth ddisgwyl canlyniad yr apêl.

Os credwch eich bod mewn perygl o fethu eich cyfnod ymsefydlu, neu os oes rhywun wedi dweud wrthy ch eich bod yn debygol o fethu eich cyfnod ymsefydlu, dylech gysylltu â NASUWT ar unwaith i ofyn am gyngor.

Un o amcanion craidd NASUWT yw sicrhau fod pob athro/athrawes newydd gymhwyso'n cael y cychwyniad gorau a mwyaf effeithiol i'w gyrfaoedd ac mae'r Undeb wedi datblygu nifer o strategaethau i gefnogi athrawon newydd.

Mae NASUWT wedi'i ymrwymo i sicrhau bod gan bob athro/athrawes newydd hawl statudol i gyfnod ymsefydlu a chymorth o safon uchel, gan gynnwys cyfle i gyflawni datblygiad proffesiynol cynnar.

Mae cyfle i gael swydd gyflogedig warrantedig i athrawon newydd yn rhagofyniad er mwyn sicrhau bod athrawon newydd yn cael y dechreuad gorau posib i'w gyrfaoedd ac mae'r Undeb yn ymgyrchu i wneud hyn yn hawl cytundebol.

Mae NASUWT yn deall hefyd bod y gwir broses o ddatblygu sgiliau a galluoedd drwy'r broses ymsefydlu'n hollbwysig i'r rhan fwyaf o athrawon newydd gymhwyso.

Cefnogaeth Barhaus gan NASUWT

Os yw aelodau'n cael unrhyw anawsterau yn ystod eu rhaglen ymsefydlu, dylent gysylltu â NASUWT ar unwaith. Gall oedi cyn gwneud hyn ohirio datrys y problemau.

Dylai'r broses ymsefydlu fod yn broses gefnogol, nid yn broses gosbol. Mae NASUWT hefyd yn cynnig amrediad eang o gyngor a chefnogaeth broffesiynol i athrawon newydd gymhwyso yn ystod eu cyfnod ymsefydlu.

Mae hyn yn cynnwys:

- canllawiau ar y Safonau Athrawon wrth eu Gwaith i athrawon newydd gymhwyso, sydd i'w cael ar wefan NASUWT www.nasuwt.org.uk/NewTeachers;
- seminarau datblygiad proffesiynol rhad ac am ddim i'r holl aelodau sy'n athrawon newydd cyn iddynt fynd i mewn i'r ystafell ddosbarth;
- seminarau 'Paratoi ar gyfer eich Swydd Addysgu Gyntaf' sy'n cynnig gwybodaeth bwysig am y broses ymsefydlu, ymysg meysydd eraill o arferion proffesiynol;
- seminarau dilynol i athrawon newydd drwy gydol eu blwyddyn ymsefydlu.

Mae Cynlluniwr Ymsefydlu NASUWT yn rhoi rhagor o wybodaeth am y broses ymsefydlu.

I gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau yn ymwneud ag ymsefydlu, ewch i:

www.nasuwt.org.uk/InductionPeriod

Eich Arferion Addysgu

Mae'r adran yma'n rhoi cyngor ac awgrymiadau mewn perthynas ag arsylwi eich arferion addysgu.



Pam mae Arsylwi'n Bwysig

Mae arsylwi arferion addysgu athrawon newydd gymhwyso yn ystod y cyfnod ymsefydlu, os bydd yn cael ei weithredu'n gywir gan eich cyflogwr, yn gallu bod o gymorth effeithiol gyda datblygiad athrawon newydd gymhwyso a'u cynnydd tuag at fodloni'r Safonau Athrawon wrth eu Gwaith.

Mae'r Adran Addysg (DfE) yn nodi y dylid arsylwi athrawon newydd 'yn rheolaidd' ar bwytiau penodol ac y bydd arsylwadau o'r fath yn helpu i asesu arferion addysgu athrawon newydd yn effeithiol.

Cyn yr Arsylwad

Dylai amcanion pob arsylwad gael eu cytuno rhwng yr athro/athrawes newydd a'r tiwtor/mentor ymsefydlu cyn i'r arsylwi ddigwydd.

Dylai pob arsylwad dynnu sylw at eich cryfderau a'r meysydd y mae angen eu datblygu ymhellach ar sail y Safonau Athrawon wrth eu Gwaith.

Os nad yw eich arsylwad cyntaf yn dilyn y llwybr hwn, dylech drefnu trafodaeth gyda'ch tiwtor/mentor ymsefydlu. Gellir datrys y rhan fwyaf o broblemau'n anffurfiol. Fodd bynnag, os bydd problem yn parhau, efallai y byddwch eisiau trafod y mater gyda'ch pennaeth. Dylech hefyd gadw nodiadau o unrhyw drafodaethau.

Mae Llywodraeth Cymru'n nodi bod hawl gan y tiwtor ymsefydlu neu unigolyn priodol arall sydd â statws athro cymwysedig (SAC) arsylwi'r athrawon newydd.

Os bydd rhywun gwahanol i'r arfer yn gwneud yr arsylwad, dylai'r athro/athrawes newydd a'r tiwtor ymsefydlu drafod hyn cyn yr arsylwad, a dylent gytuno ar egwyddorion y rhesymau pam fod unigolyn gwahanol yn gwneud yr arsylwad.

Os oes gan athrawon newydd bryderon ynglŷn â nifer y bobl sy'n arsylwi eu harferion addysgu, ac os na ellir datrys y pryderon hyn o fewn yr ysgol, dylent gysylltu â NASUWT gynted ag y bo modd.

Ar ôl yr Arsylwad

Er nad oes unrhyw fanyleb ynglŷn â pha mor aml y dylid gwneud arsylwadau, mae NASUWT yn awgrymu y byddai tri arsylwad bob tymor yn ddigonol fel arfer yn ystod y cyfnod ymsefydlu.

Fodd bynnag, os bydd athrawon newydd yn credu eu bod yn cael eu harsylwi'n ormodol, dylent siarad â'u tiwtor/mentor ymsefydlu yn y lle cyntaf.

Os bydd y broblem yn parhau, efallai y byddwch eisiau trafod y mater gyda'r pennaeth.

Dan yr amgylchiadau yma, dylai athrawon newydd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i NASUWT bob amser fel bod yr Undeb yn gallu rhoi cyngor a chymorth.

Arsylwi Arferion Addysgu

Mae NASUWT yn dweud yn glir bod arsylwi athrawon newydd yn ormodol yn wrthgynhyrchiol ac na fydd hynny'n helpu'r broses ddatblygiadol y mae'r cyfnod ymsefydlu wedi'i lunio i'w helpu.

Yn ogystal, er mwyn sicrhau bod arsylwi arferion addysgu'n fuddiol i ddatblygiad athrawon newydd, dylid cytuno ar amcanion unrhyw arsylwad o flaen llaw a dylai pob arsylwad gael ei ddilyn gan drafodaeth ac adborth i ddadansoddi'r wers a arsylwyd.

Dylai'r drafodaeth a'r adborth dilynol, sy'n lleol ac yn ysgrifenedig, fod yn gadarnhaol ac adeiladol a dylai dynnu sylw at yr hyn y mae athrawon newydd yn ei wneud yn dda, yn ogystal â'r meysydd y mae angen eu datblygu ymhellach.

Dylid gwneud cofnod ysgrifenedig byr ar ôl pob arsylwad. Dylai hwn ddelio â'r amcanion datblygu y cytunwyd arnynt a dylai nodi ymhle y mae angen datblygiad pellach ac ymhle y dylid diwygio amcanion o ganlyniad i'r arsylwad. Os nad oes gan yr ysgol broses ffurfiol ar gyfer cofnodi trafodaethau ar ôl yr arsylwi, dylai athrawon newydd sicrhau eu bod yn cadw eu cofnodion eu hunain.



I gael rhagor o wybodaeth a chynghor ynglŷn â chychwyn eich gyrfa addysgu, ewch i:

www.nasuwt.org.uk/NewTeachers

Eich Cyflog

Mae'r adran yma'n rhoi gwybodaeth am eich cyflog a'ch hawliau pensiwn.



Cyflogau

Mae gan ysgolion yng Nghymru a Lloegr eu polisiau cyflog eu hunain. Bydd rhai o'r rhain wedi'u seilio ar y Ddogfen Cyflog ac Amodau Gwaith Athrawon Ysgol (STPCD) sy'n cynnwys y cyflogau a'r amodau gwaith i athrawon mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol. Mae gan NASUWT bolisi cyflog enghreifftiol sydd ar gael ar wefan NASUWT.

Rhestr Wirio ar Gyflogau

Wrth ddechrau mewn ysgol newydd neu wrth wneud cais am swydd, dylech:

- ofyn am gopi o bolisiau eich ysgol mewn perthynas â chyflogau a gwerthuso/rheoli perfformiad;
- gadarnhau eich cyflog cychwynnol a'ch graddfa gyflog, gan gynnwys y cyflog uchaf a phryd y disgwylir i chi gyrraedd y pwynt hwnnw;
- a chanfod pa feini prawf allai fod yn berthnasol i symud ymlaen drwy'r raddfa gyflog.

Os nad yw aelodau'n siwr pa ddarpariaethau sy'n berthnasol, dylent gysylltu â NASUWT i gael cyngor.

Gallwch weld rhagor o wybodaeth a chyngor ar wefan NASUWT ar www.nasuw.org.uk/Pay.

Y Cynllun Pensiwn Athrawon

Caiff athrawon mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru a Lloegr eu cynnwys yn awtomatig yn y Cynllun Pensiwn Athrawon, sef y cynllun pensiwn galwedigaethol i athrawon.

Mae rhai ysgolion annibynnol hefyd yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, felly os ydych yn gweithio mewn ysgol annibynnol, rydym yn eich cynghori i ganfod pa ddarpariaethau pensiwn sy'n berthnasol i chi.

Mae gennych hawl i dynnu allan a threfnu eich pensiwn eich hunan.

Fodd bynnag, mae NASUWT yn argymhell yn gryf y dylai athrawon lynu at y Cynllun Pensiwn Athrawon.

Mae NASUWT yn rhoi diweddariadau rheolaidd am bensiynau i'w aelodau.

Mae'n galonogol cael fy nhrin a'm gwerthfawrogi fel rhywun proffesiynol. Mae NASUWT yn trefnu llawer o ddigwyddiadau sy'n rhoi grym i bob un ohonom, yn unigol ac ar y cyd.

Athrawes Newydd Gymhwyso



I gael rhagor o wybodaeth am bensiynau athrawon, ewch i:

www.nasuwt.org.uk/Pay

Cadw'n Ddiogel

Mae'r adran yma'n cynnwys cyngor am ffyrdd o ostwng y risg o ymosodiadau mewn ysgolion.



Ymosodiadau

Mae athrawon yn dda iawn am gadw disgyblaeth mewn ysgolion, ond mewn lleiafrif bach o achosion mae problemau'n codi.

Dyma rai camau i chi eu cymryd i ostwng unrhyw risg o ddigwyddiad neu i'ch paratoi chi os bydd digwyddiad yn codi. Maent yn cynnwys:

- Gwneud yn siŵr nad ydych byth ar eich pen eich hun yn gyfan gwbl gyda disgybl. Gallech wneud hyn drwy drefnu i gydweithiwr weithio gerllaw neu drwy gadw drws yr ystafell ddosbarth yn agored.
- Dod yn gyfarwydd â pholisiau'r ysgol, yn arbennig am amddiffyn plant, rheoli ymddygiad, a defnyddio technoleg, a ddylai gynnwys:
 - cyswllt corfforol gyda disgyblion;
 - cyfarfodydd gyda disgyblion;
 - perthnasoedd gyda disgyblion tu allan i'r ysgol;
 - defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn briodol;
 - cyswllt gyda disgyblion tu allan i'r ysgol.
- Dysgu am oedran, galluoedd a gofynion addysgol arbennig eich disgyblion.
- Gwneud yn siŵr eich bod yn gwybod sut i alw am gymorth a phwy i gysylltu â hwy.
- Ceisio cyngor gan NASUWT.
- Cadw cofnod ysgrifenedig o unrhyw ddigwyddiadau.
- Efallai y bydd rhywun yn gofyn i chi a fydddech chi'n hapus i chwilio disgybl. Cyngor NASUWT yw mai dim ond y Pennaeth ddylai wneud chwiliadau o'r fath, neu rywun sydd wedi'i gyflogi/ei chyflogi'n benodol i chwilio disgyblion.

“Rwy'n teimlo fy mod yn cael cefnogaeth dda iawn gan NASUWT. Mae llawer o gyrsiau datblygiad proffesiynol ar gael. Mae cymaint o ofal i athrawon newydd.

Athrawes Newydd Gymhwys



I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â chadw'n ddiogel yn yr ysgol, ewch i:

www.nasuwt.org.uk/Assaults

Defnyddio Technoleg yn Ddiogel

Mae'r adran yma'n rhoi gwybodaeth i'ch helpu i wneud y defnydd gorau o dechnoleg ac i'ch diogelu eich hun ar-lein.



Mae technoleg yn datblygu'n gyflym ac mae wedi dod yn rhan annatod o'r gwaith addysgu. O'i defnyddio'n briodol gall gyfoethogi cyfleoedd dysgu a gwella'r amgylchedd gwaith i athrawon.




Cyda'r cyfleoedd daw heriau hefyd a dyma pam mae NASUWT wedi cynhyrchu canllaw i aelodau i'ch helpu i ddiogelu eich preifatrwydd ar-lein ac i osgoi peryglon.

Mae canllaw i ddiogelu eich preifatrwydd ar-lein a manylion llawn y gwaith ymchwil a wnaed gan NASUWT i'w cael ar www.nasuwt.org.uk/emails.

Defnyddio Technoleg mewn Rôl Broffesiynol.

Adnoddau Addysgu

Mae nifer gynyddol o fannau i ganfod adnoddau addysgu ar-lein, a gallwch ddefnyddio llawer ohonynt yn rhad ac am ddim. Mae esiamplau'n cynnwys:

- NASUWT  @NASUWTCymru
-  Chwilio am grŵp NASUWT Cymru ar Facebook
- Twitter  #Edchat

Defnydd Personol

Mae gennych hawl i gael bywyd personol a phresenoldeb ar-lein personol. Ond, mae rhai pethau ymarferol y dylai athrawon eu hystyried:

- Gwiriwch y gosodiadau preifatrwydd ac adolygwch eich cynnwys. A yw'n datgelu unrhyw beth na fydddech eisiau i gydweithwyr, rhieni neu ddisgyblion ei weld?
- Osgowch ryngweithio gyda disgyblion a rhieni ar-lein heblaw eich bod yn defnyddio cyfrif yr ysgol i'r pwrpas a fwriadwyd.

- Gallwch chwilio ar-lein am eich enw eich hun ynghyd â nifer o eiriau allweddol ac adolygu'r canlyniadau.
- Cadwch ddefnydd personol a defnydd proffesiynol ar wahân, gan gynnwys eich defnydd o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol, rhifau ffôn a chyfrifon e-bost.

Awgrymiadau Da

- Darllenwch Bolisi Defnydd Derbyniol eich ysgol oherwydd bydd hwn yn cynnwys rheolau'r ysgol sy'n ymwneud â defnyddio technoleg gwybodaeth.
- Cadwch y ffin rhwng eich gwaith a'ch bywyd personol. Ni ddylai'r ysgol ddisgwyl i athrawon ddarllen neu ateb negeseuon e-bost yn ystod amser addysgu, gyda'r nos, ar benwythnos, yn ystod y gwyliau na phan maent ar absenoldeb salwch.
- Peidiwch â defnyddio'r cyfrifiaduron, y camerau a'r dyfeisiau eraill a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer unrhyw beth heblaw gwaith yn ymwneud â'r ysgol.
- Dylai ysgolion fod â phrotocol clir ar gyfer defnyddio negeseuon e-bost a chyfrif e-bost yr ysgol. Holwch a oes gan eich ysgol brotocol o'r fath. Cofiwch, efallai bod cyfrifon a negeseuon e-bost yr ysgol yn cael eu monitro.
- Peidiwch â chysylltu dyfeisiau personol, megis ffonau symudol, at rwydweithiau ysgolion.



I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â defnyddio technoleg yn ddiogel, ewch i:

www.naswt.org.uk/UsingTechnology

Ynghylch NASUWT – undeb yr athrawon

Mae'r adran yma'n rhoi rhagor o wybodaeth am eich undeb a'r cymorth ychwanegol a ddarparwn.



Mae NASUWT yn undeb llafur democrataidd a dyma'r unig undeb athrawon sy'n cynrychioli aelodau ymhob rhan o'r DU. Fel undeb arbenigol sy'n cynrychioli dim ond athrawon, NASUWT yw'r undeb sydd â'r ffocws mwyaf ac sy'n fwyaf effeithiol o ran cynrychioli eich buddiannau. Mae'r arweinwyr yn athrawon cymwysedig a phrofiadol sy'n cael eu hethol gan yr aelodau.

Rydym yn cydnabod fod pawb sy'n gweithio ym maes addysg yn haeddu cael cefnogaeth arbenigol sy'n canolbwyntio ar eu rolau perthnasol. Dyma pam fo NASUWT wedi'i ymrwymo i weithio gydag undebau sydd â'r arbenigedd a'r sgiliau sy'n angenrheidiol i gynrychioli staff nad ydynt yn addysgu, gyda'u hamrediad eang o gontractau a'u hamrywiol gyfrifoldebau. Mae'r agwedd yma'n caniatáu i NASUWT ganolbwyntio ar y materion cymhleth sy'n benodol berthnasol i athrawon, ac hefyd i gefnogi cydweithwyr nad ydynt yn addysgu.

Pam ddylwn i ymuno â NASUWT?

- **Ffocws ar yr Athrawon** – Dim ond gweithwyr proffesiynol ym maes addysg sydd â chyfrifoldeb cytundebol i addysgu, darlithio neu hyfforddi all fod yn aelodau o NASUWT.
- **Cyngor Cyfrinachol** – Mae NASUWT yn rhoi cyngor cyfrinachol i'w aelodau i gyd ar faterion sy'n achosi pryder yn ymwneud â'u cyflogaeth.
- **Democrataidd** – Aelodaeth NASUWT o athrawon ac arweinwyr ysgol mewn swydd sy'n penderfynu ar y polisi cenedlaethol.
- **Gwleidyddol Annibynnol** – Mae NASUWT yn wleidyddol ond nid yw'n perthyn i unrhyw blaid wleidyddol. Nod NASUWT yw gweithio er lles gorau athrawon pa blaid bynnag sy'n llywodraethu ar lefel genedlaethol neu leol.
- **Cynrychiolaeth o'r Radd Flaenaf** – Byddwch yn gallu cael gafael ar wasanaethau cyfreithiol a phroffesiynol o'r radd flaenaf drwy rwydwaith o swyddogion lleol, staff proffesiynol cenedlaethol a rhanbarthol ac ymgynghorwyr cyfreithiol arbenigol o ansawdd uchel.

- **Wedi'i ymrwymo i Gydraddoldeb** – Mae'r Undeb yn arwain y frwydr i hyrwyddo cydraddoldeb. Rydym yn cydnabod nid yn unig bod hawl gan athrawon ac arweinwyr ysgol weithio mewn amgylchedd teg a chyfiawn heb unrhyw wahaniaethu, ond eu bod hefyd yn chwarae rôl hanfodol mewn herio gwahaniaethu, anghydraddoldeb ac anoddefgarwch.
- **Ymgyrchu i Gyflwyno Newid** – Mae NASUWT yn undeb sy'n ymgyrchu ac mae wedi sicrhau gwelliannau go iawn i amodau gwaith athrawon.
- **Cynrychiolaeth Traws-sector** – Mae ein haelodau'n gweithio ym mhob sector, o'r blynyddoedd cynnar i addysg bellach, ac maent yn cynrychioli athrawon ar bob cam yn eu gyrfa, gan gynnwys arweinwyr ysgol.
- **Cyngor a Chyfarwyddyd Ymarferol** – Mae ystod lawn o'n cyhoeddiadau ar gael ar wefan NASUWT sy'n cynnwys cyngor a chyfarwyddyd ymarferol ardderchog.
- **Hyfforddiant, Cynadleddau a Gwybodaeth** – Mae NASUWT yn cynnig rhaglen helaeth o gyrsiau a chynadleddau undebau llafur a phroffesiynol sy'n rhad ac am ddim i'n haelodau. Gallwch weld y manylion hyn ar www.nasuwt.org.uk.
- **Cymorth Lles** – Weithiau mae athrawon yn dioddef caledi ariannol. Dydy pobl ond yn gymwys i wneud cais i Gronfa Les NASUWT os ydynt yn aelodau sydd wedi tanysgrifio i NASUWT yn awr neu yn y gorffennol.



I gael rhagor o wybodaeth am NASUWT, ewch i:
www.nasuwt.org.uk

Siaradwch Â Ni

Canolfan Genedlaethol NASUWT Cymru

– y Rhif Ffôn a'r Cyfeiriad E-bost Mwyaf Defnyddiol ar eich Rhestr o Gysylltiadau

029 2054 6080

rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk

**siaradwch
a ni**

Cyfranogi

Mae ein haelodau'n allweddol i lwyddiant NASUWT. Y ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau ein bod yn cynrychioli pob un o'n haelodau yw i chi roi eich mewnbwn i'r undeb. Gallwch wneud hyn drwy fynd i gyfarfodydd a digwyddiadau neu drwy ymateb i arolygon.

Hoffech chi gymryd mwy o ran yn NASUWT?

Gallwch ganfod rhagor ar www.nasuwt.org.uk/GettingActive



twitter.com/nasuwt.



Gallwch hefyd ddilyn Ysgrifennydd Cyffredinol NASUWT ar twitter.com/Chris_K_NASUWT.



www.facebook.com/nasuwt.

www.nasuwt.org.uk

Mwy o arian yn eich poced, diolch i **NASUWT**

Fel aelod o NASUWT, gallwch fanteisio ar gyfoeth o ddisgowntiau a chynigion unigryw mewn perthynas â'ch cartref, eich car, nwyddau trydanol, mynd allan i fwyta, gweithgareddau hamdden, tocynnau rhodd, mynd ar wyliau a theithio.

Gallwch weld dros 250 o gynigion sy'n cael eu diweddu'n rheolaidd ar www.nasuwtdenefits.co.uk neu drwy sganio'r cod QR ar eich cerdyn aelodaeth.

Mynnwch olwg ar ein eZine Buddiannau a Gwasanaethau bob deufis sy'n cynnwys bargeinion unigryw, crynhoad o'r disgowntiau gorau, a chystadlaethau rhad ac am ddim gan ein partneriaid.

Os nad ydych yn derbyn yr eZine ac yr hoffech ei gael, y cwbl sydd angen i chi ei wneud yw rhoi gwybod i ni ar membership@mail.nasuwtdenefits.co.uk neu **03330 145550**.

Os byddwch yn defnyddio dim ond cyfran fechan o'r cynigion dilys hyn, gallent yn hawdd dalu bob blwyddyn am eich tanysgrifiad i NASUWT a'ch helpu i wneud arbedion pellach.

Hefyd, os byddych yn recriwtio athrawon eraill i ymuno â NASUWT, gallwch gael arian yn ôl am hynny hefyd!



Dw i wedi arbed £72
oddi ar fy nhansgrifiad
blynyddol i gampfa
DW Fitness First



Drwy gofrestru o flaen
llaw dw i wedi arbed mwy na
£100 ar drip gyda fy nheulu i
Alton Towers



Dw i wedi ennill
tocynnau rhodd gwerth
£60 drwy wahodd pedwar
o'm cydweithwyr i ymuno
â NASUWT



Dw i wedi arbed £72
oddi ar wythnos mewn
hafoty yn Ffrainc



Diolch i NASUWT, dw i
wedi talu llai am fy
nghar delfrydol



Mynnwch Ap NASUWT

Mynnwch ap **NASUWT**

Ewch i'ch storfa apiau i lawrlwytho ein ap newydd yn hawdd ac yn gyflym, ac yn rhad ac am ddim, fel bod gennych yr holl nodweddion campus yma ar flaenau eich bysedd.

- **Cymorth i Aelodau** – cyngor ac arweiniad
- **Ein cynigion** – amrywiaeth o ddisgowntiau a bargeinion
- **Y diweddaraf gan NASUWT**
- **Cyhoeddiadau**
- **Cynadleddau a digwyddiadau**
- **Eich cerdyn aelodaeth a'ch manylion**

Mae'r ap ar gael ar



Abuse of disciplinary procedures leaving teachers in a 'climate of fear'